## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 15-06-2022 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod hybrid |
| **TEITL:** | Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022 a'r Asesiad Llesiant Lleol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**COFNODION CYFARFODYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 18 TACHWEDD 2021 A 7 MAWRTH 2022.**

Cyflwynir cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a chofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022 i'r Pwyllgor a gallwch eu gweld yn **Atodiadau 1 a 2**.

**YR ASESIAD LLESIANT LLEOL**

Ar ôl cyflwyno fersiwn ddrafft o'r Asesiad Llesiant Lleol i'r Pwyllgor hwn ar 1 Rhagfyr 2021 ac ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion bellach wedi cyhoeddi'r Asesiad Llesiant Lleol. Bydd yr asesiad yn awr yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi Cynllun Llesiant Lleol nesaf Ceredigion ar gyfer 2023-28. Bydd y Cynllun yn amlinellu'r ffordd y byddwn ni'n gwella llesiant Ceredigion a chymunedau'r sir dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyflwynir yr Asesiad yn awr i'r Pwyllgor hwn er gwybodaeth ac mae modd ei weld yn **Atodiadau 3a a 3b**.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Heb ei gwblhau, am nad yw'r adroddiad yn newid Polisi neu Wasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** <br> **Hirdymor:** <br> **Integreiddio:** <br> **Cydweithio:** <br> **Cynnwys:** <br> **Atal:** | |

**ARGYMHELLION:**

i. **Derbyn cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2021 a 7 Mawrth 2022**
ii. **Derbyn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 15-06-2022 |